

## Esgobaeth Llanelwy

### NODIADAU CANLLAW YNGHYLCH LLENWI MANYLION SWYDDOGION ARDAL GENHADAETH A THÎM GWEINIDOGAETH AR FFURFLENNI BLYNYDDOL 2017

**Gofynnir Arweinydd yr Ardal Genhadaeth, neu berson a enwebwyd gan Arweinydd yr Ardal Genhadaeth, ddefnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno manylion presennol holl swyddogion ac aelodau'r Tîm Gweinidogaeth yn eu Hardal Genhadaeth.**

**Bydd yr wybodaeth a roddir yn cael ei defnyddio i lunio rhifyn nesaf Cyfeiriadur yr Esgobaeth ac at ddibenion gweinyddol cyffredinol o fewn yr Esgobaeth.**

---

1) Llenwch y ffurflen yn electronig os yw hynny'n bosibl. Gallwch lwytho'r ffurflen i lawr mewn fformat MS Word o wefan yr Esgobaeth: <http://stasaph.churchinwales.org.uk>  
Os nad ydych chi'n gallu llenwi'r ffurflen yn electronig, defnyddiwch feiro ddu ac ysgrifennwch yr wybodaeth mewn priflythrennau.

2) Llenwch y ffurflen mor gyflawn â phosibl, gan gynnwys holl aelodau'r Tîm Gweinidogaeth a phob swyddog yn eich Ardal Genhadaeth neu Ardal Genhadaeth sy'n Datblygu (os nad yw eich Ardal Genhadaeth wedi cael ei ffurfio'n gyfansoddiadol eto). Wrth i chi llenwi'r ffurflen, gallai fod o gymorth cael copi o rifyn cyfredol (2016/2017) Cyfeiriadur yr Esgobaeth wrth law i gyfeirio ato.

3) Mewn achosion lle mae'r manylion yn union yr un fath â'r wybodaeth sydd yng Nghyfeiriadur yr Esgobaeth 2016/2017, ysgrifennwch enw'r unigolyn ac yna 'dim newid' yn y blwch perthnasol. Fodd bynnag, gwiriwch fod yr wybodaeth yn gywir cyn ei nodi fel 'dim newid'- efallai y byddwch chi'n gwybod fod 'Mrs Jones' yn parhau i fod yn Arweinydd Addoliad yn eich Ardal Genhadaeth, ond allwch chi fod yn siŵr fod y rhif ffôn a'r cyfeiriad e-bost sydd yn y cyfeiriadur yn gyfredol o hyd, heb i chi wirio hynny?

4) Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn unol â Pholisi Diogelu Data Esgobaeth Llanelwy, y mae copi ohono ar gael ar ein gwefan <http://stasaph.churchinwales.org.uk> Os yw unrhyw un o'r swyddogion neu'r Tîm Gweinidogaeth yn dymuno i'w manylion cyswllt beidio ag ymddangos yng Nghyfeiriadur yr Esgobaeth, ticiwch y blwch optio allan perthnasol.

5) Defnyddiwch yr adran 'Rhagor o wybodaeth' ar ddiwedd y ffurflen os nad oes digon o le yn rhywle arall ar y ffurflen i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen, neu os ydych chi'n dymuno cyflwyno sylwadau.

Os ydych chi angen cymorth neu gyngor ynghylch llenwi'r ffurflen hon, ffoniwch Swyddfa'r Esgobaeth ar 01745 582245

Cyflwynwch y ffurflen wedi ei llenwi drwy e-bost i [pamelathompson@churchinwales.org.uk](mailto:pamelathompson@churchinwales.org.uk)

Os nad yw'n bosibl trosglwyddo'r ffurflen wedi ei llenwi drwy e-bost, postiwch hi i:

**Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy LL17 0RD**

Dychwelwch y ffurflen cyn gynted â phosibl, dim hwyrach na **dydd Gwener 5 Mai 2017**

**Mae eich cymorth a'ch cydweithrediad yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn – diolch.**